

## Cwestiynau'r cyhoedd yng nghyfarfod Bwrdd CNC ym mis Mawrth (Derbyniwyd y rhain yn ychwanegol at gwestiynau ar Ansawdd Dŵr a'r Adolygiad o Adar Gwyllt: Trwyddedau Cyffredinol)

Cwestiwn		Ymateb CNC
1	<p><b>Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru</b></p> <p>Y "Cynllun" ar gyfer Eogiaid a Brithyllod y Môr Gweler <a href="https://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/salmon-and-sea-trout-plan-of-action-2020/salmon-and-sea-trout-plan-of-action-for-wales-2020-overview/?lang=cy">https://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/salmon-and-sea-trout-plan-of-action-2020/salmon-and-sea-trout-plan-of-action-for-wales-2020-overview/?lang=cy</a></p> <p>Nid cynllun mo hwn, nid oes ganddo fan cychwyn, nod terfynol na strwythur cyfrifoldeb. Rhaid bod gan unrhyw ddogfen sy'n defnyddio'r gair cynllun bwynt terfyn a nod clir o fewn amserlen cyfrifol.</p> <p>Allwch chi ddweud pryd y bydd cynllun yn cael ei gyhoeddi?</p> <p>A yw CNC wedi briffio hyrwyddwyr rhywogaethau Llywodraeth Cymru ar gyflwr enbyd eu stociau o rywogaethau yng Nghymru, nid gor-ddweud yw galw'r sefyllfa'n drychinebus. Yr Eogiaid a Siwin (mae Huw Irranca-Davies a Cefin Campbell wedi'u copïo i mewn yma). Ydyn nhw'n cysylltu â chi?</p>	<p>Ymatebodd y Prif Gyngorydd, Pysgodfeydd, i'r cwestiwn ac eglurodd fod y cynllun gweithredu'n gyfuniad o gamau gweithredu a gweithgareddau niferus a oedd yn mynd rhagddynt ac mai ei nod oedd mynd i'r afael â'r ffactorau niferus sy'n effeithio ar y dirywiad mewn stociau eogiaid a brithyllod y môr. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau busnes-fel-arfer, prosiectau a gweithgareddau penodol, a ddarperir gan CNC a'n partneriaid. Mae'r cynllun wedi'i nodi ar y wefan ac mae'n dangos y dyddiadau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r gwahanol weithgareddau hynny. Felly, rydym yn cydnabod nad oedd pwynt terfyn penodol ar gyfer y cynllun cyffredinol, gan fod y rhain yn gamau gweithredu a fyddai'n parhau am gyfnod hir.</p> <p>Rydym yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y gweithgareddau hyn i Lywodraeth Cymru a'n grŵp cynghori, Fforwm Pysgodfeydd Cymru. Rydym hefyd yn adrodd ar lawer o'r mesurau hyn i Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd fel rhan o gyfraniad y DU i'r cynllun gweithredu rhyngwladol. Rydym hefyd yn briffio Llywodraeth Cymru yn rheolaidd ar statws stociau eogiaid a brithyllod y môr a chynnydd yn erbyn y mesurau yn y cynllun gweithredu. Nid ydym wedi cael cyfle yn ddiweddar i drafod y materion hyn gyda hyrwyddwyr rhywogaethau'r Senedd, ond byddem yn croesawu'r cyfle i wneud hynny.</p>

Cwestiwn		Ymateb CNC
2	<b>Gareth Wardell</b>	Beth yw nifer gweithwyr CNC sy'n gyfrifol am rheoleiddio yn y sector coedwigaeth, a faint ohonyn nhw sy'n goedwigwyr proffesiynol achrededig?
		Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i'r cwestiwn. Roedd gan CNC dîm Rheoleiddio Coedwigoedd ac Iechyd Planhigion o 11 o aelodau staff a oedd yn cynnwys y canlynol: un arweinydd tîm; dau uwch swyddog, chwe swyddog rheoleiddio coetir a dau swyddog cymorth technegol. Roedd dau o'r tîm yn canolbwyntio ar faterion iechyd anifeiliaid. Roedd yr holl dîm wedi'i addysgu i safonau uchel, gan ddal cymwysterau perthnasol yn amrywio o HNC i MSc ac roedd ganddynt gymwysterau priodol ar gyfer rheoleiddio yn y sector coedwigaeth. Roedd holl aelodau'r tîm yn cael eu hannog i fynd ar drywydd aelodaeth o gyrff proffesiynol fel rhan o'u datblygiad. Ar hyn o bryd, roedd gan bedwar o'r tîm Aelodaeth Gysylltiol o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig ac roeddent yn gweithio tuag at Aelodaeth Broffesiynol. Roedd aelodau eraill o'r tîm yn aelodau o'r Gymdeithas Fioleg Frenhinol a'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Nodwyd bod angen cymysgedd o gymwysterau yn y maes rheoleiddio.
3	<b>Gareth Wardell</b>	Os oedd nifer y coedwigwyr achrededig yng ngwaith rheoleiddio CNC mor dda, pam yr oedd cwynion ailadroddus a dilys am ddehongliad cyfreithiol anghymedrol CNC o geisiadau am drwyddedau cwmpo coed a'r broses araf iawn o ran gwirio ceisiadau Glastir. A oedd angen mwy o goedwigoedd achrededig ar CNC?
		Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod CNC o'r farn bod ganddo'r nifer priodol i ymdrin â'r niferoedd sy'n dod drwy'r tîm rheoleiddio a chynllun Glastir. Gellid mynd i'r afael ag unrhyw gwynion penodol all-lein.